

## Atal Prif Weithredwyr gorhyderus trwy statws credyd

Gorhyder sydd wrth wraidd llawer o fethiannau hanesyddol. Mewn papur gweithio newydd, mae grŵp o ymchwilyr yn dangos ei bod hi'n bosibl dofi gorhyder rheolwyr. Byddai rhywun yn disgwyl i Brif Weithredwyr ymddwyn yn rhesymegol a seilio eu penderfyniadau ar ffeithiau, ystadegau a rhesymeg gadarn. Fodd bynnag, os yw cwmp cyfnewidfydd cryptoarian FTX yn y Bahamas yn 2022 wedi dysgu rhywbeth i ni, efallai nad yw hyn yn wir bob amser. Mae Prif Weithredwyr, er gwaethaf lefel y cyfrifoldeb a'r disgwyliadau o ran eu proses gwneud penderfyniadau, yr un mor debygol o wneud penderfyniadau afresymegol ag unrhyw un arall. Bryd hynny dysgwyd gwers hanfodol i fyd busnes, sef y gall Prif Weithredwyr gorhyderus sy'n goramcangyfrif eu galluoedd arwain eu busnesau i ddinistr ariannol trwy wneud penderfyniadau gwael.

Gall Prif Weithredwyr gorhyderus nid yn unig gwneud penderfyniadau mwy peryglus, gan gredu eu bod yn werth y risg gynhenid, ond gallant hefyd fychanu'r risg o fuddsoddi a goramcangyfrif ei werth posibl yn y dyfodol. Felly, mae'r penderfyniadau a wneir yn y broses yn ddiffygiol, yn arwain at orfuddsoddi a all fod yn niweidiol i werth y cwmni a'i lwyddiant yn y tymor hir, yn enwedig os oes gan y cwmni fynediad at gyfalaf mewnol mawr a'r capasiti i gymryd dyled. Yn yr achosion gwaethaf, gall gorfuddsoddi o'r fath arwain at fethiant corfforaethol.

Mae statws credyd corfforaethol yn chwarae rhan bwysig mewn penderfyniadau corfforaethol allweddol. O ran effeithiau israddio statws (e.e. costau cyfalaf uwch a mynediad cyfyngedig i'r marchnadoedd cyfalaf allanol), mae Prif Weithredwyr yn fwriadol yn gwneud penderfyniadau corfforaethol sy'n osgoi peryglu statws cwmnïau. Mewn theori, mae cydsoddiadau a chaffaeliadau yn cael eu hystyried yn fuddiol i gwmnïau, gan leihau risgiau credyd tra'n gwella proffidioldeb. Fodd bynnag, mae astudiaethau empirig yn gweld bod trafodion cydsoddiadau a chaffaeliadau yn cael effaith negyddol ar statws credyd cwmnïau sy'n caffael oherwydd cynnydd yn y risg credyd. Yn ddiddorol, mae'r risg o gael eu hisraddio ar ôl cytundeb caffael yn uwch i gwmnïau sydd â statws uchel.

Mewn cyfweiliad gyda *The Guardian*, dywedodd Daniel Kahneman, y seicolegydd ac awdur poblogaidd *Thinking, Fast and Slow*, y byddai'n dileu gorhyder pe bai ganddo ffon hud. O ystyried yr israddio statws posibl ar ôl caffael, y cwestiwn yw a all statws credyd ddatblygu i fod yn *ffon hud* yn y byd corfforaethol. Gan ddefnyddio sampl o 916 o gwmnïau o'r Unol Daleithiau yn ystod y cyfnod 2006-2019, mae'r ymchwil a gynhaliwyd gan Shee-Yee Khoo, Thanos Verousis, Huong Vu a Patrycja Klusak yn gweld bod Prif Weithredwyr gorhyderus yn

cymryd rhan mewn mwy o weithgarwch caffael na Phrif Weithredwyr rhesymegol ar lefelau statws isel, ond gwelir ymddygiad i'r gwrthwyneb ar lefelau statws uchel. Gwelodd yr awduron hefyd fod Prif Weithredwyr gorhyderus yn dysgu o arwyddion statws credyd negyddol ac o ganlyniad yn cymryd mwy o gamau cywirol yn eu penderfyniadau buddsoddi sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyfranogwyr y farchnad.

Mae eu canlyniadau'n awgrymu y gallai statws credyd fod yn fecanwaith allanol i reoli gorhyder Prif Weithredwyr. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i gwmnïau, a all o bosibl ddefnyddio statws credyd i gyfyngu ar ymddygiad gor-fuddsoddi Prif Weithredwyr gorhyderus, tra'n dal i allu manteisio ar eu parodrwydd i gymryd risg a gor-optimistiaeth. Caiff y papur hwn ei gyflwyno yn y 12fed Cynhadledd Ryngwladol o'r Financial Engineering and Banking Society (FEBS), a gynhelir rhwng 1-4 Mehefin, 2023 yn y Conference Center of the Mediterranean Agronomic Institute of Chania, Gwlad Groeg.